

**Cartrefi
Cymunedol
Cymru**



**Adroddiad cynnydd chwarterol:
Cynllun Corfforaethol 2016-19**

Hydref-Rhagfyr 2016

BRO GWGAN

Croeso.

Helo, a chroeso i'ch trydydd adroddiad cynnydd chwarterol ar gynllun corfforaethol 2016-19 Cartrefi Cymunedol Cymru.

Mae'r adroddiad cynnydd yn rhoi manylion ein llwyddiannau a cherrig milltir allweddol diweddaraf ar y blaenoriaethau a amlinellwyd yn ein cynllun corfforaethol, y gallwch ei weld [here](#).

Mae'r rhifyn hwn hefyd yn cynnwys adroddiad llawn ar y cyfryngau sy'n dangos sut y buom yn dylanwadu ar yr agenda cyfryngau dros y tri mis diwethaf.

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y chwarter nesaf (Ionawr - Mawrth 2017) yn cynnwys:

- Paratoi ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r sector
- Gorwelion Tai: Comisiynu ymchwil sy'n nodi'r her yn 2036
- Lwfans Tai Lleol: Cyflenwi cynllun y prosiect
- Cyfathrebu: Lansio cylchgrawn ar-lein newydd CHC
- Paratoi cyhoeddiad Cyfrifon Cynhwysfawr

- Cyflenwi rhaglenni Cynadleddau - Gwledig, Llywodraethiant a Chyfathrebu
- Ymgynghori a chyhoeddi cynnig aelodau a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol 2017/18

Cofiwch gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau ar yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad cynnydd yma.



Stuart Ropke
Prif Weithredydd

Ein Cenhadaeth.

- Dylanwadu'n gadarnhaol ar bolisi Llywodraeth Cymru.
- Cefnogi a hyrwyddo llais ein haelodau.
- Siarad gydag un llais.
- Rhoi aelodau yng nghanol popeth a wnawn.
- Gweithio fel un tîm i gyflawni ein cenhadaeth.

Ein Nod.

Erbyn 2019 bydd aelodau yn ein hystyried yn gorff ymbarél gwerthfawr ac effeithlon iawn. Byddwn yn parhau i hyrwyddo amrywiaeth ein haelodaeth a byddwn wedi helpu i lunio'r amgylchedd allanol i'w galluogi i ffynnu.

Ni fydd y sefydliad mynd-ato ar faterion tai yng Nghymru, partner o ddewis ar gyfer rhanddeiliaid, ac yn cael ein cydnabod a'n gwerthfawrogi gan Lywodraeth Cymru fel sector sy'n cyflawni.

Bydd ein gwaith dros y tair blynedd nesaf yn dod o fewn pedair thema strategol.

1. Cefnogi aelodau i fod yn fusnesau cryf.
2. Gtalluogi aelodau i ddarparu mwy o gartrefi o ansawdd da sydd wir yn fforddiadwy.
3. Cefnogi aelodau i adeiladu cymunedau cynaliadwy y mae pobol eisiau byn ynddynt.
4. Rhedeg sefydliad grych i aelodau.

Cipolwg ar mis Hydref - mis Rhagfyr 2016

- Cytundeb Cyflenwi Tai - cyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet yn ein Cynhadledd Flynyddol
- Ailddosbarthiad gan ONS - Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i wneud yr hyn sydd ei angen i wrthdroi'r newid
- Lansio fframwaith rheoleiddiol newydd ar gyfer y sector
- Ymestyn y setliad rhent
- Effaith economaidd y sector ar economi Cymru
- Arolwg meincnodi Adnoddau Dynol

Themâu:

1.

2.

3.

Aiddosbarthu Cymdeithasau Tai Cymru

Ar y cyd â thîm Rheoleiddio Tai Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill, rydym wedi lansio dull newydd a gwell o ddarparu rheoleiddiad tai yng Nghymru. Gellir gweld y dull newydd, a gymeradwywyd gan Fwrdd Rheoleiddiol Cymru, **yma**.



Cyfarwyddydd Polisi a Dirprwy Prif Weithredydd
Clarissa Corbisiero-Peters

✉ clarissa-corbisiero-peters@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4816

🐦 @clarissacorbisi

Themâu:

1.

2.

3.

4.

Lwfans Tai Lleol (LHA)

Mae polisi uchafswm LHA yn parhau i fod yn fater pryder ar gyfer aelodau a'r chwarter yma, mae CHC wedi cychwyn ei gynllun prosiect Lwfans Tai Lleol yn dilyn ymgynghoriad gyda Rhwydwaith Prif Weithredwyr. Rydym wedi addasu ymholiadau ac ymgynghoriad Adran Gwaith a Phensiynau ac Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddyfodol cyllid tai â chymorth a thai gwarchod i gynnal pedwar digwyddiad ymgysylltu ag aelodau i fod yn sylfaen i ac, yn bwysicach, roi sail i'n hymateb a chasglu sylwadau ar y ffordd newydd i ddarparu unrhyw gyllid newydd yn y dyfodol.

Roedd y digwyddiadau hyn yn cyd-daro gyda chyllideb derfynol Llywodraeth Cymru a chadarnhad y cadwyd y rhaglen Cefnogi Pobl. Roedd y trafodaethau'n cynnwys pwysigrwydd rhedeg y rhaglen wrth ochr y cyllid newydd ar gyfer llety.



Pennaeth Datblygu Busnes, YBAC
Paul Langley

✉ paul-langley@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4812 | 07875 998795

🐦 @Paul_CHC

Themâu:

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.

Setliad Rhent

Cafodd estyniad deuddeg mis i'r setliad rhent o CPI +1.5% ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Mae CHC a thair ffederasiwn arall y Deyrnas Unedig wedi cwrdd yn ddiweddar a chytuno ymchwilio sut y caiff y Lwfans Tai Lleol ei gyfrifo a'i bod yn wir adlewyrchiad o'r farchnad tu hwnt i 2020. Bu peth gydnabyddiaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau fod cyfraddau wedi gostwng ar ôl y 30fed canradd a bydd Cronfa Fforddiadwyedd Targedig yn cynyddu rhai cyfraddau gan 3% pan gyhoeddir ffigurau 2017/18 ddiwedd Ionawr. Mae hyn yn cynnwys cyfraddau llety rhannu a llety un ystafell wely yn Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot, Sir y Fflint a Bro Morgannwg.



Pennaeth Datblygu Busnes, YBAC
Paul Langley

✉ paul-langley@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4812 | 07875 998795

🐦 @Paul_CHC

Themâu:

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.

Credyd Cynhwysol

Cafodd yr amserlen newydd ar gyfer gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn (digidol) ei gyhoeddi. Mae CHC yn cadw cysylltiad agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau drwy grŵp strategol y Deyrnas Unedig a ddatblygodd Statws Partner Dibynadwy a gaiff ei dreialu gan aelodau yng Nghaerdydd a Cartrefi NPT. Bu CHC yn ganolog wrth i'r grŵp ddatblygu porth sylfaenol i landlordiaid ar gyfer Credyd Cynhwysol y gobeithiwn y caiff ei dreialu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn 2017. Bydd CHC yn dal i gynnal ei ddigwyddiad bwrdd crwn chwarterol gyda swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau'n seiliedig ar y gwasanaeth Credyd Cynhwysol Byw i ddynodi a thrafod materion gweithredol cyfredol. Caiff aelodau eu cynrychioli gan y Rhwydwaith Cyfarwyddwyr Tai, Cymdeithas Tai Rhondda, Cartrefi NPT, Grŵp Cynefin, Bro Myrddin, Pobl a Bron Afon.



Pennaeth Datblygu Busnes, YBAC
Paul Langley

✉ paul-langley@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4812 | 07875 998795

🐦 @Paul_CHC

Themâu:

1.

4.

Llesiant - Pobl dan 35 oed

Ar ôl cyd-gomisiynu ymchwil gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar effaith bosibl newidiadau i lesiant ar gyfer pobl dan 35 oed, mae CHC wedi lloio'n llwyddiannus am sefydlu gweithgor gan Lywodraeth Cymru sy'n ystyried argymhellion yr adroddiad. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector ac rydym yn gweithio i sicrhau y caiff sylwadau ein holl aelodau eu cynnwys.

Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda Crisis ar eu gwaith ar alluogi pobl ifanc i gael mynediad i dai rhannu. Bydd hyrwyddo hynny'n llwyddiannus yn hanfodol i ymateb y sector ar gyflwyno Cyfradd Llety Rhannu ar gyfer pobl dan 35 oed.



Swyddog Polisi
Hugh Russell

✉ hugh-russell@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4802

🐦 @Hugh_CHC

Themâu:

1.

2.

3.

Ein heffaith yn economi Cymru

Mae ffigurau newydd a gyhoeddwyd gan CHC yn dangos rôl bwysig cymdeithasau tai Cymru yn economi Cymru. Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Yn 2015/16 gwariodd cymdeithasau tai £1,055m yn uniongyrchol a chyfrannu £1,970m arall i'r economi
- Mae bron 90c ym mhob £1 a werir gan gymdeithasau tai yn aros yng Nghymru
- Am bob un person a gyflogir gan gymdeithas tai, caiff un a hanner o swyddi eraill eu cefnogi mewn man arall yn economi Cymru
- Fe wnaeth cymdeithasau tai adeiladu/caffael 2,322 o gartrefi yn 2015/16 - bron chwarter heb Grant Tai Cymdeithasol

Mae canfyddiadau llawn yr adroddiad ar gael **yma**.



Rheolydd Polisi a Rhaglenni
Hayley MacNamara

✉ hayley-macnamara@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4819 | 07870 946419

🐦 @Hayley_CHC

Themâu:

- 1.
- 2.
- 3.

Hwyluso

Bu CHC yn gweithio i sicrhau y gall aelodau roi mewnbwn i brosiect Hwyluso Llywodraeth Cymru sy'n anelu i symleiddio'r ffordd y caiff gwaith addasu eu cyflawni a rhyddhau cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith mawr. Darparwyd £4m ychwanegol ar gyfer addasiadau y llynedd. Ym mis Hydref fe wnaethom roi cyfle i aelodau i fwydo'n uniongyrchol i ddatblygiad Hwyluso mewn cyfarfod a drefnwyd gyda Llywodraeth Cymru.



Swyddog Polisi
Hugh Russell

✉ hugh-russell@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4802

🐦 @Hugh_CHC

Themâu:

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.

Cyllideb Llywodraeth Cymru 2017/18

Yn dilyn ymgyrch Cartrefi i Gymru a Llywodraeth Cymru'n cadarnhau targed o 20,000 o gartrefi fforddiadwy, ymrwymodd y gyllideb derfynol ar gyfer 2017/18 fwy na £1bn o fuddsoddiad tai yn ystod tymor hwn y Cynulliad.

Wrth ochr hyn, yn dilyn lobio gan CHC, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd y bydd yn buddsoddi £50m mewn adfywio o 2018/19. Roedd y gyllideb ddrafft yn gynharach wedi dangos y byddai gwariant ar adfywio yn gostwng wrth i'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ddod i ben.

Bu ymgyrch Gadewch i ni Barhau i Gefnogi Pobl hefyd yn llwyddiannus, gyda'r Gweinidog Cyllid yn cadarnhau y byddai cyllid ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl yn cael ei ddiogelu ynghyd â'r Grant Atal Digartrefedd.



Rheolwr Materion Cyhoeddus
Aaron Hill

✉ aaron-hill@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4820

🐦 @AaronCHC

Themâu:

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.

Aiddosbarthiad cymdeithasau tai Cymru gan yr ONS

Yn ogystal â gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddeall yn llawn beth yw effaith a maint penderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), rydym yn parhau i lobio Aelodau Cynulliad a chodi ymwybyddiaeth am y mater.

Rydym hefyd wedi rhoi cyngor penodol i aelodau sefydliadau trosglwyddo gwirfoddol ar raddfa fawr a chynhaliwyd digwyddiad bwrdd crwn mewn partneriaeth gyda Devonshires i ymchwilio mesurau rheoli awdurdod lleol ac aelodaeth Byrddau yng nghydestun aiddosbarthiad.



Rheolwr Materion Cyhoeddus
Aaron Hill

✉ aaron-hill@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4820

🐦 @AaronCHC

Themâu:

- 1.
- 4.

Llywodraethiant

Cafodd fframwaith llywodraethiant diwygiedig CHC ei weithredu'n llwyddiannus yn dilyn pleidlais unfrydol o blaid y newidiadau arfaethedig mewn Cyfarfod Cyffredinol ar 12 Hydref. Ffocws allweddol yr adolygiad yw sicrhau ein bod yn parhau i fedru cefnogi ein haelodau i fod yn fusnesau cydnerth a sicrhau fod sefydliad gwyb i aelodau yn gweithredu'n llyfn.

Cafodd y Cyngor Cenedlaethol a'r Pwyllgor Gwaith ei newid am Fwrdd llai, seiliedig ar sgiliau o rhwng 7 a 12 o ymddiriedolwyr a recriwtio o'r sector a hefyd yn allanol i gael safbwyntiau annibynnol. Caiff aelodau'r bwrdd newydd eu recriwtio gan bwyllgor enwebiadau drwy gydol 2017 a'u penodi gan randdeiliaid yn CCB 2017. Yn y cyfamser, penodwyd y cyn Bwyllgor Gwaith fel Bwrdd interim CHC.

Cynhelir pedwar cyfarfod bwrdd drwy gydol y flwyddyn a dau ddiwrnod cwrdd-i-ffwrdd strategol ar gyfer Bwrdd CHC. Hefyd, fel rhan o'r trefniadau llywodraethiant newydd, bydd dau gyfarfod Bwrdd agored y flwyddyn lle bydd croeso i aelodau gwrdd gyda'r bwrdd i godi unrhyw broblemau eu faterion o gonsyrn a all fod ganddynt.



Swyddog Gweithredol
Claire McDougall

✉ claire-mcdougall@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4806

Themâu:

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.

Lansio Gorwelion Tai

Lansiwyd Gorwelion Tai yn ein Cynhadledd Flynyddol ym mis Rhagfyr. Mae Gorwelion Tai yn brosiect sy'n anelu i osod y weledigaeth ar gyfer y sector yn 2036. Rydym eisoes wedi cynnal astudiaeth canfyddiadau ymhlith Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol a randdeiliaid ac rydym yn awr eisiau casglu barn y sector a rhanddeiliaid yn ehangach ar y weledigaeth. I gael mwy o wybodaeth cliciwch **yma**.



Cyfarwyddyd Polisi a Dirprwy Prif Weithredydd
Clarissa Corbisiero-Peters

✉ clarissa-corbisiero-peters@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4816

🐦 @clarissacorbisi

Themâu:

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.

Adroddiad cyfryngau

Bu'n 3 mis prysur yn swyddfa'r wasg.

Mae CHC a'n haelodau wedi cymryd rhan mewn cyfweiliadau teledu a radio a chawsom ein dyfynnu yn y wasg genedlaethol, leol a masnach ar ystod eang o bynciau yn cynnwys y rhaglen Cefnogi Pobl, Lwfans Tai Lleol, ailddosbarthiad ONS, Cyllideb Cymru, Datganiad Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig, galw am fwy o fuddsoddiad mewn tai fforddiadwy a'r cyhoeddiad am y Cytundeb Cyflenwi Tai.

Mae ein hadroddiad llawn yn dangos lled y sylw dros y tri mis diwethaf lle'r ydym wedi arwain yr agenda cyfryngau mewn modd rhagweithiol. **Darllenwch fan hyn**.



Rheolydd Cyfathrebu
Bethan Davies

✉ bethan-davies@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4804

🐦 @Beth_CHC

Themâu:



Gwasanaethau Aelodau a Datblygu Busnes

Cynhadledd Flynyddol - Cynhaliwyd 'Creu'r Naratif' yn Stadiwm y Mileniwm ar 1/2 Rhagfyr. Gwelsom gynnydd o bron 4% yn nifer y cynrychiolwyr a chynnydd o 10% mewn stondinau arddangos o gymharu gyda 2015. Bu'r adborth gan gynrychiolwyr yn gadarnhaol iawn a nodwyd mai ansawdd y siaradwyr oedd un o agweddau cadarnhaol allweddol y digwyddiad.

Aelodaeth fasnachol - Mae dau aelod masnachol newydd wedi ymuno y chwarter hwn - Cymdeithas Adeiladu Principality a John Wilkinson PR.

Rhaglen Cynadleddau 2017/18 - Lansiwyd rhaglen cynhadledd newydd ar gyfer 2017/18. Mae'r rhaglen newydd wedi cynyddu nifer y cynadleddau preswyl i ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer pob rhan o'r sector. Gallwch weld rhaglen lawn y gynhadledd **yma**.

Hyfforddiant - Cafodd y Pecyn Cymorth Tai newydd groeso da. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd o 12% mewn ymholiadau hyfforddiant mewnol. Rydym yn parhau i weithio ar y cynnig hyfforddiant llywodraethiant ac yn ymgynghori ar hyn o bryd gydag aelodau a ffynonellau allanol i sicrhau fod yn cynnig yn diwallu anghenion ein haelodau. Mae 5 aelod yn bartneriaid dysgu gyda CHC ac Agored Cymru ar hyn o bryd: Hafod, Trivallis, Cadwyn, Melin a Chartrefi Cymoedd Merthyr.

Smart Energy - Daeth contract 6 mis CHC gyda Smart Energy GB i gyflwyno gwybodaeth a hyfforddiant i'n haelodau ar ben ar 31 Rhagfyr. Mae cefnogaeth yn parhau i fod ar gael i'r sector drwy Smart Energy GB ac mae CHC wrthi'n adolygu lefel yr ymgyfraniad yn y flwyddyn i ddod.



Rheolydd Gwasanaethau Aelodau a Datblygu Busnes
Adele Harries-Nicholas

✉ adele-harries-nicholas@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4803 | 07769 550891

🐦 @HarriesAdele

Themâu:



Swyddfeydd Newydd

Cafodd gwaith adnewyddu'r swyddfa ei orffen erbyn diwedd y llynedd ac mae holl staff CHC yn awr ar lawr daear 2 Ocean Way. Mae'r gweddlun newydd yn gynllun agored gyda mwyafrif y staff â desg boeth. Mae digonedd o ardaloedd sesiynau grwpiau ac anffurfiol, yn cynnwys gofod arloesedd gyda thema glaswellt. Cafodd y dyluniad ei gwblhau drwy ddefnyddio ein lliwiau corfforaethol yma ac acw.

Mae croeso mawr i aelodau alw heibio i ymweld â ni neu ddefnyddio ein gofod desg boeth.



Cyfarwyddyd Adnoddau a Datblygu Sefydliadol
Phillipa Knowles

✉ phillipa-knowles@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4813 | 07876 240198

🐦 @philchymru

Themâu:



Arolwg Meincnodi Adnoddau Dynol CHC

Cyhoeddwyd yr adroddiad gwedd newydd ym mis Tachwedd ar ôl i CHC gynnal ei Arolwg Meincnodi Adnoddau Dynol gyda Turning Point HR.

Cymerodd 32 o sefydliad ran yn yr arolwg, y nifer fwyaf eto. Rhyngddynt maent yn rheoli mwy na 150,000 uned, mae ganddynt drosiant dros £850m a bil cyflogau o fwy na £230m.

Mae'r adroddiad yn amlygu dangosyddion allweddol adnoddau dynol, yn cynnwys cyflogau, gwobrau, telerau ac amodau, cyfraddau salwch a throsiant llafur yn ogystal â chymharu cyfraddau'r sector gydag ystadegau CIPD. Bu aelodau'n wirioneddol gadarnhaol am y cynnwys a ddefnyddir ar gyfer meincnodi cyflogau a rhoi adroddiad i'r Bwrdd.



Cyfarwyddyd Adnoddau a Datblygu Sefydliadol
Phillipa Knowles

✉ phillipa-knowles@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4813 | 07876 240198

🐦 @philchymru

Tan y chwarter nesa'.

Fel y gwelwch, bu'n chwarter prysur arall.
Gallwch ddisgwyl yr adroddiad cynnydd
nesaf ym mis Ebrill.

Yn y cyfamser, mae croeso mawr i chi
gysylltu ag aelodau perthnasol y tîm os oes
gennych unrhyw gwestiynau ar unrhyw un
o'r eitemau uchod.

Cysylltwch â ni.



chcymru.org.uk



twitter.com/CHCymru



enquiries@chcymru.org.uk



029 2067 4800